Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu: 16 Chwefror 2022

# Ymateb i Archwiliad Arolygiaeth Prawf EM: Uned Gyflawni Gwasanaethau Prawf Abertawe Castell-nedd Port Talbot (SNPT) a Gwent (Gwasanaeth Prawf Cymru)

Cyhoeddwyd yr Adroddiadau: SNPT 20 Ionawr 2022, Gwent 03 Chwefror 2022

Mae'n bosibl y bydd camau gweithredu gyda dyddiadau targed yn y dyfodol yn cael eu gohirio oherwydd COVID-19.

## RHAGARWEINIAD

Mae Arolygiaeth Carchardai EM ac Arolygiaeth Prawf EM ar gyfer Cymru a Lloegr yn arolygiaethau annibynnol sy'n craffu ar yr amodau ar gyfer trin carcharorion a throseddwyr. Maent yn adrodd ar eu canfyddiadau ar gyfer carchardai, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ac effeithiolrwydd gwaith y gwasanaeth prawf, Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a gwasanaethau troseddau ieuenctid ledled Cymru a Lloegr i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. Mewn ymateb i'r adroddiad, rhaid i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi / Y Weinyddiaeth Gyfiawnder lunio cynllun gweithredu cadarn ac amserol i fynd i'r afael â'r argymhellion. Mae'r cynllun gweithredu'n cadarnhau a gytunwyd ar yr argymhellion, a gytunwyd arnynt yn rhannol arnynt, ynteu a ydynt heb gael eu cytuno (gweler y categorïau isod). Os cytunir ar argymhelliad neu os cytunir arno'n rhannol, mae'r cynlluniau gweithredu yn darparu camau penodol a chamau gweithredu penodol i fynd i'r afael â'r rhain. Mae'r camau gweithredu'n glir, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy ac yn berthnasol gyda'r perchennog, ac mae amserlenni pob cam wedi'u nodi'n glir. Anfonir cynlluniau gweithredu at Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan Prison Finder Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. Bydd y cynnydd mewn perthynas â'r gwaith gweithredu a chyflawni'r cynlluniau gweithredu yn cael ei fonitro ac yn cael ei adrodd.

| **Term** | **Diffiniad** | **Sylwadau ychwanegol** |
|---|---|---|
| Cytunwyd | Cytunwyd ar yr holl argymhelliad, mae modd ei gyflawni ac mae'n fforddiadwy. | Dylai'r ymateb esbonio'n glir sut caiff yr argymhelliad ei gyflawni, ynghyd â'r amserlenni. Dylai camau gweithredu fod yn rhai CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol), gymaint ag y bo modd. Dylai'r camau gweithredu fod yn ddigon penodol i gael eu holrhain ar gyfer cynnydd. |
| Cytunwyd yn Rhannol | Dim ond ar ran o'r argymhelliad y cytunwyd, mae'n gyraeddadwy, yn fforddiadwy ac fe fydd yn cael ei weithredu.<br>Gallai hyn fod oherwydd na allwn weithredu'r argymhelliad cyfan oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. | Rhaid i'r ymateb nodi'n glir pa ran o'r argymhelliad fydd yn cael ei weithredu, ynghyd â chamau CAMPUS, a rhaid iddo gael ei olrhain ar gyfer cynnydd.<br>**Rhaid** cael esboniad ynghylch pam na allwn gytuno'n llawn ar yr argymhelliad – rhaid i hyn nodi'n glir ai rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd sy'n gyfrifol am hyn. |
| Heb Gytuno | Ni chytunwyd ar yr argymhelliad ac ni chaiff ei weithredu.<br>Gallai hyn fod oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. | Rhaid i'r ymateb nodi'n glir y rhesymau pam ein bod wedi dewis yr opsiwn hwn. **Rhaid** cael esboniad ynghylch pam na allwn gytuno ar yr argymhelliad – rhaid i hyn nodi'n glir ai rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd sy'n gyfrifol am hyn. |

Mae'n bosibl y bydd camau gweithredu gyda dyddiadau targed yn y dyfodol yn cael eu gohirio oherwydd COVID-19.

CYNLLUN GWEITHREDU: Uned Gyflawni Gwasanaethau Prawf Abertawe Castell-nedd Port Talbot (SNPT) a Gwent (Gwasanaeth Prawf Cymru)

| 1. Rhif Argymhelliad | 2. Argymhelliad | 3. Cytunwyd/ Cytunwyd yn Rhannol/ Heb Gytuno | 4. Ymateb Camau a Gymerwyd/a Gynlluniwyd | 5. Perchennog Cyfrifol | 6. Dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Dylai Uned Gyflawni Gwasanaethau Prawf (PDU) Abertawe Castell-nedd Port Talbot:** | | | | |
| 1. | Gwella ansawdd y gwaith o ran asesu, cynllunio ar gyfer, rheoli ac adolygu risg o niwed. | Cytunwyd | Er mwyn gwella ansawdd y gwaith bydd PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot yn:<br>• Datblygu calendr o ddigwyddiadau gwella ansawdd ar gyfer y PDU yn unol â'r Strategaeth Ymarfer Effeithiol Ranbarthol i gefnogi ffocws lleol ar ansawdd.<br>• Datblygu a chyflwyno proses gynefino amlasiantaeth ar gyfer y PDU ym mis Mawrth 2022 ar gyfer yr holl staff newydd a'r rheini sydd wedi ymuno â'r gwasanaeth ers mis Mawrth 2020.<br>• Defnyddio staff i arbenigo mewn gweithgareddau datblygu ansawdd, gan ganolbwyntio ar sicrhau ansawdd a datblygu aelodau staff drwy amrywiaeth o weithgareddau. | Pennaeth PDU<br>Pennaeth PDU<br>Pennaeth PDU | Ebrill 2022<br>Mehefin 2022<br>Mehefin 2022 |

Mae'n bosibl y bydd camau gweithredu gyda dyddiadau targed yn y dyfodol yn cael eu gohirio oherwydd COVID-19.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Cyflwyno Setiau Dysgu Gweithredol ar draws y PDU i gefnogi dysgu gan gymheiriaid mewn perthynas â risg o niwed difrifol.<br>• Mae sesiynau cynefino Wyneb yn Wyneb wedi cael eu hadfer i bawb yn y Gwasanaeth Prawf ers mis Rhagfyr 2021 er mwyn hyrwyddo gwell asesiadau a chynlluniau.<br><br>Bydd Gwasanaeth Prawf Cymru a PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot yn mesur effaith y gweithgareddau uchod drwy weithgareddau'r PDU a gweithgareddau ledled y Rhanbarth yn y Strategaeth Ymarfer Effeithiol ar gyfer 2022/23. | Pennaeth PDU<br><br>Pennaeth PDU<br><br>Pennaeth PDU ac Arweinydd Gwasanaeth Prawf Cymru ar gyfer Ymarfer Effeithiol | Ebrill 2022<br><br>Cwblhawyd<br><br>Mawrth 2023 |
| 2. | Gwella effeithiolrwydd sicrhau ansawdd a goruchwyliaeth rheolwyr dros yr holl waith achos. | Cytunwyd | Er mwyn gwella effeithiolrwydd sicrhau ansawdd a goruchwyliaeth rheolwyr, bydd PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot yn:<br><br>• Ailstrwythuro timau rheoli dedfrydau a chynyddu adnoddau'r Uwch Swyddogion Prawf i leihau maint timau er mwyn cefnogi mwy o oruchwyliaeth gan reolwyr ar waith achos.<br>• Gweithredu hyb cydlynu rheolwyr i ryddhau Uwch Swyddogion Prawf o dasgau gweinyddol er mwyn cynyddu'r amser sydd ar gael i reolwyr oruchwylio gwaith achos.<br>• Cynnal 'diwrnod ailosod' arweinyddiaeth gydag Uwch Swyddogion Prawf, gan ganolbwyntio ar ailosod disgwyliadau ymarfer wrth i gyfyngiadau COVID-19 lacio, ar y cyd â Modelau Cyflawni Eithriadol Cenedlaethol.<br>• Gweithredu'r fframwaith cydlofnodi diwygiedig, gan ganolbwyntio ar ddefnyddio'r adnodd Sicrhau | Pennaeth PDU<br><br>Pennaeth PDU<br><br>Pennaeth PDU<br><br>Pennaeth PDU | Chwefror 2022<br><br>Chwefror 2022<br><br>Mawrth 2022<br><br>Mehefin 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ansawdd Asesu i wella ansawdd asesiadau ac adolygiadau.<br>• Defnyddio staff i arbenigo mewn gweithgareddau datblygu ansawdd o fewn y PDU, gan ganolbwyntio ar sicrhau ansawdd a datblygu aelodau staff drwy amrywiaeth o weithgareddau. | Pennaeth PDU | Mehefin 2022 |
| 3. | Sicrhau bod yr ymyriadau sydd eu hangen i wella ymataliad a lleihau aildroseddu, a’r risg o niwed, yn cael eu darparu ym mhob achos. | Cytunwyd | Er mwyn sicrhau bod yr ymyriadau angenrheidiol yn cael eu darparu ar gyfer pob achos, bydd PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot yn:<br>• Cynyddu'r ddarpariaeth Gwaith Di-dâl drwy gyflwyno prosesau newydd ar gyfer gwaith sydd wedi’i gwblhau drwy'r rhaglen Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, a gweithredu prosiectau Gweithio’n Annibynnol. Bydd perfformiad y naill a’r llall yn cael ei olrhain drwy gyfarfodydd misol sy’n cael eu cadeirio gan Bennaeth Gweithrediadau, Adsefydlu, Atgyfeirio a Gwerthuso Canolog, Ymarfer Effeithiol, Rhaglenni a Gwaith Di-dâl. | Pennaeth CORRE, Ymarfer Effeithiol, Rhaglenni a Gwaith Di-dâl | Mawrth 2022 |
| | | | • Cynyddu adnoddau ar gyfer y ddarpariaeth Gwaith Di-dâl drwy recriwtio goruchwylwyr ychwanegol, gan ddefnyddio cyllid ychwanegol. | Pennaeth CORRE, Ymarfer Effeithiol, Rhaglenni a Gwaith Di-dâl | Mai 2022 |
| | | | • Ail-lansio pecynnau cymorth cymeradwy a fydd yn cynnwys sesiynau briffio i ddatblygu sgiliau staff, ochr yn ochr â gweithredu adnodd sicrhau ansawdd i fonitro sut mae pecynnau cymorth yn cael eu defnyddio yn lle rhaglenni lle bo angen. | Pennaeth CORRE, Ymarfer Effeithiol, Rhaglenni a Gwaith Di-dâl / Pennaeth PDU | Ebrill 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Cynyddu adnoddau wrth ddarparu rhaglenni drwy recriwtio hwyluswyr ychwanegol gan ddefnyddio cyllid cenedlaethol ychwanegol.<br><br>• Ymgorffori Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu ar draws y PDU, gan sicrhau bod yr holl bobl berthnasol sydd ar Brawf yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth perthnasol ac yn ei dderbyn. Bydd nifer yr atgyfeiriadau yn cael eu holrhain gan y Pennaeth Rheoli Contractau a Phennaeth CORRE, Ymarfer Effeithiol, Rhaglenni a Gwaith Di-dâl. | Pennaeth CORRE, Ymarfer Effeithiol, Rhaglenni a Gwaith Di-dâl<br><br>Pennaeth CORRE, Ymarfer Effeithiol, Rhaglenni a Gwaith Di-dâl / Pennaeth Rheoli Contractau / Pennaeth PDU | Mehefin 2022<br><br>Mai 2022 |
| 4. | Sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am oruchwyliaeth rheoli achosion yn meddu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r amser i wneud y gwaith yn effeithiol. | Cytunwyd | Er mwyn sicrhau bod gan staff y sgiliau, yr wybodaeth a'r amser i wneud eu gwaith yn effeithiol, bydd PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot yn:<br><br>• Ailstrwythuro timau rheoli dedfrydau a chynyddu adnoddau'r Uwch Swyddogion Prawf i leihau maint timau er mwyn cefnogi mwy o oruchwyliaeth gan reolwyr ar waith achos.<br>• Gweithredu'r hyb cydlynu rheolwyr i ryddhau Uwch Swyddogion Prawf o dasgau gweinyddol er mwyn cynyddu'r amser sydd ar gael i reolwyr oruchwylio gwaith achos.<br>• Adolygu'r Model Touchpoints (model y Gwasanaeth Prawf ar gyfer goruchwylio rheolwyr) a'r Sesiynau Goruchwylio Ymarfer Myfyriol.<br>• Cynnal 'diwrnod ailosod' arweinyddiaeth gydag Uwch Swyddogion Prawf, gan ganolbwyntio ar ailosod disgwyliadau ymarfer wrth i gyfyngiadau COVID-19 | Pennaeth PDU<br><br>Pennaeth PDU<br><br>Pennaeth PDU<br><br>Pennaeth PDU | Chwefror 2022<br><br>Chwefror 2022<br><br>Ebrill 2022<br><br>Mawrth 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Iacio, ar y cyd â Modelau Cyflawni Eithriadol Cenedlaethol.<br>• Lansio Pecyn Cynefino ar gyfer Uwch Swyddogion Prawf sy'n canolbwyntio ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gefnogi goruchwyliaeth rheoli uwch.<br>• Gweithredu'r fframwaith cydlofnodi diwygiedig, gan ganolbwyntio ar ddefnyddio'r adnodd Sicrhau Ansawdd Asesu i wella ansawdd asesiadau ac adolygiadau. | Pennaeth PDU<br><br>Pennaeth PDU | Mehefin 2022<br><br>Mai 2022 |
| 5. | Archwilio'r rhesymau dros well gwaith achos yn yr achosion hynny ar drwydded ôl-ryddhau a defnyddio'r hyn a ddysgwyd i wella effeithiolrwydd mewn mannau eraill. | Cytunwyd | Bydd PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot yn edrych ar y rhesymau pam mae gwaith achos yn well ar gyfer y rheini sydd ar drwydded ôl-ryddhau drwy:<br>• Adolygu detholiad o achosion perthnasol o sampl achosion Arolygiaeth Prawf EM i edrych ar y gwahaniaethau rhwng achosion cosb gymunedol ac achosion trwydded ôl-ryddhau.<br>• Cynnal trafodaethau grŵp ffocws gydag aelodau perthnasol o staff er mwyn archwilio'r gwahaniaethau ymhellach.<br>• Bydd crynodeb o'r canlyniadau yn cael ei gynhyrchu, a fydd yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar y Strategaeth Ymarfer Effeithiol ar gyfer 2022/23. | Arweinydd Gwasanaeth Prawf Cymru ar gyfer Ymarfer Effeithiol<br><br>Arweinydd Gwasanaeth Prawf Cymru ar gyfer Ymarfer Effeithiol<br><br>Arweinydd Gwasanaeth Prawf Cymru ar gyfer Ymarfer Effeithiol | Mawrth 2022<br><br>Mawrth 2022<br><br>Mawrth 2022 |
| 6. | Archwilio'r rhesymau pam mae gwaith achos gwaeth yn yr achosion hynny yr | Cytunwyd | Bydd PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot yn edrych ar y rhesymau pam y canfuwyd bod gwaith achos yn waeth ar gyfer achosion yr aseswyd eu bod yn peri risg canolig o niwed drwy: | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | aseswyd eu bod yn peri risg ganolig o niwed, o'i gymharu â'r rheini yr aseswyd eu bod yn risg isel neu uchel/uchel iawn o niwed, a defnyddio'r dysgu hwn i wella ansawdd y gwaith a gyflwynir ar gyfer achosion risg ganolig. | | • Mae pennaeth y PDU wedi blaenoriaethu ac ailddechrau arsylwadau ar ymarfer ar gyfer achosion risg ganolig yn dilyn ail-agor swyddfa brawf Abertawe Castell-nedd Port Talbot ym mis Rhagfyr.<br>• Adolygu detholiad o achosion perthnasol o samplau achosion Arolygiaeth Prawf EM i edrych ar y gwahaniaethau rhwng achosion risg ganolig o niwed ac achosion risg uchel/uchel iawn o niwed.<br>• Cynnal trafodaethau grŵp ffocws gydag ymarferwyr y gwasanaeth prawf ac Uwch Swyddogion Prawf er mwyn archwilio'r gwahaniaethau ymhellach.<br>• Bydd crynodeb o'r canlyniadau yn cael ei gynhyrchu, a fydd yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar y Strategaeth Ymarfer Effeithiol ar gyfer 2022/23. | Pennaeth PDU<br><br>Arweinydd PS Cymru ar gyfer Ymarfer Effeithiol<br><br>Arweinydd PS Cymru ar gyfer Ymarfer Effeithiol<br>Arweinydd PS Cymru ar gyfer Ymarfer Effeithiol | Wedi'i gwblhau<br><br>Mawrth 2022<br><br>Mawrth 2022<br><br>Mawrth 2022 |
| | **Dylai PDU Gwent wneud y canlynol:** | | | | |
| 7. | Gwella'r trefniadau rhannu gwybodaeth i ddylanwadu ar asesiadau ac adolygu'r risg o niwed, gan gynnwys yn y cam adroddiad cyn dedfrydu. | Cytunwyd | Er mwyn gwella'r trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth, bydd PDU Gwent yn:<br><br>• Gweithredu Digwyddiadau hysbysadwy (proses sy'n cefnogi rhannu gwybodaeth mewn amser real rhwng yr heddlu a'r gwasanaeth prawf) gyda Heddlu Gwent i wella'r broses rhannu gwybodaeth gyda chydweithwyr yn yr heddlu.<br>• Treialu'r Hyb Diogelu Ymyriadau Cynnar yng Nghasnewydd a fydd yn helpu i rannu gwybodaeth diogelu â phartneriaid.<br>• Cyhoeddi canllawiau rhannu gwybodaeth i staff y Llys sy'n egluro disgwyliadau a phrosesau cofnodi. | Pennaeth PDU<br><br>Pennaeth PDU<br><br>Arweinydd Llys PS Cymru | Chwefror 2022<br><br>Mawrth 2022<br><br>Mawrth 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Cynnal archwiliadau rheolaidd o arferion rhannu gwybodaeth yng ngwaith y Llys er mwyn mesur effaith y pwynt uchod, a fydd yn cael ei gynnwys yn yr amserlen archwilio chwarterol.<br><br>Bydd Gwasanaeth Prawf Cymru a PDU Gwent yn mesur effaith y gweithgareddau uchod drwy weithgareddau PDU a gweithgareddau ledled y Rhanbarth yn y Strategaeth Ymarfer Effeithiol ar gyfer 2022/23. | Arweinydd Llys PS Cymru<br><br>Pennaeth PDU ac Arweinydd Gwasanaeth Prawf Cymru ar gyfer Ymarfer Effeithiol | Gorffennaf 2022<br><br>Mawrth 2023 |
| 8. | Gwella ansawdd y gwaith o ran asesu, rheoli ac adolygu'r risg o niwed. | Cytunwyd | Er mwyn gwella ansawdd y gwaith, bydd PDU Gwent yn:<br><br>• Datblygu calendr o ddigwyddiadau datblygu ansawdd ar gyfer y PDU yn unol â'r Strategaeth Ymarfer Effeithiol Ranbarthol i gefnogi ffocws lleol ar ansawdd.<br>• Datblygu a chyflwyno proses gynefino amlasiantaeth ar gyfer y PDU ym mis Mawrth 2022 ar gyfer yr holl staff newydd a'r rheini sydd wedi ymuno â'r gwasanaeth ers mis Mawrth 2020.<br>• Defnyddio staff i arbenigo mewn gweithgareddau datblygu ansawdd, gan ganolbwyntio ar sicrhau ansawdd a datblygu aelodau staff drwy amrywiaeth o weithgareddau.<br>• Cyflwyno Setiau Dysgu Gweithredol ar draws y PDU i gefnogi dysgu gan gymheiriaid mewn perthynas â risg o niwed difrifol.<br>• Cafodd sesiynau cynefino Wyneb yn Wyneb eu hadfer i bawb yn y Gwasanaeth Prawf ym mis Rhagfyr 2021 er mwyn hyrwyddo gwell asesiadau a chynlluniau.<br><br>Bydd Gwasanaeth Prawf Cymru a PDU Gwent yn mesur effaith y gweithgareddau uchod drwy weithgareddau PDU | Pennaeth PDU<br><br>Pennaeth PDU<br><br>Pennaeth PDU<br><br>Pennaeth PDU<br><br>Pennaeth PDU<br><br>Pennaeth PDU ac Arweinydd | Ebrill 2022<br><br>Mehefin 2022<br><br>Mehefin 2022<br><br>Ebrill 2022<br><br>Cwblhawyd<br><br>Mawrth 2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | a gweithgareddau ledled y Rhanbarth yn y Strategaeth Ymarfer Effeithiol ar gyfer 2022/23. | Gwasanaeth Prawf Cymru ar gyfer Ymarfer Effeithiol | |
| 9. | Gwella effeithiolrwydd goruchwyliaeth gan reolwyr a gwaith sicrhau ansawdd ar gyfer yr holl waith achos. | Cytunwyd | Er mwyn gwella effeithiolrwydd sicrhau ansawdd a goruchwyliaeth rheolwyr, bydd PDU Gwent yn: | | |
| | | | • Ailstrwythuro timau rheoli dedfrydau a chynyddu adnoddau'r Uwch Swyddogion Prawf i leihau maint timau er mwyn cefnogi mwy o oruchwyliaeth gan reolwyr ar waith achos. | Pennaeth PDU | Chwefror 2022 |
| | | | • Gweithredu hyb cydlynu rheolwyr i ryddhau Uwch Swyddogion Prawf o dasgau gweinyddol er mwyn cynyddu'r amser sydd ar gael i reolwyr oruchwylio gwaith achos. | Pennaeth PDU | Chwefror 2022 |
| | | | • Cynnal 'diwrnod ailosod' arweinyddiaeth gydag Uwch Swyddogion Prawf, gan ganolbwyntio ar ailosod disgwyliadau ymarfer wrth i gyfyngiadau COVID-19 lacio, ar y cyd â Modelau Cyflawni Eithriadol Cenedlaethol. | Pennaeth PDU | Mawrth 2022 |
| | | | • Gweithredu'r fframwaith cydlofnodi diwygiedig, gan ganolbwyntio ar ddefnyddio'r adnodd Sicrhau Ansawdd Asesu i wella ansawdd asesiadau ac adolygiadau. | Pennaeth PDU | Mehefin 2022 |
| | | | • Defnyddio staff i arbenigo mewn gweithgareddau datblygu ansawdd o fewn y PDU, gan ganolbwyntio ar sicrhau ansawdd a datblygu aelodau staff drwy amrywiaeth o weithgareddau. | Pennaeth PDU | Mehefin 2022 |
| 10. | Sicrhau bod yr ymyriadau sydd eu hangen i wella ymataliad a lleihau | Cytunwyd | Er mwyn sicrhau bod yr ymyriadau angenrheidiol yn cael eu darparu ar gyfer pob achos, bydd PDU Gwent yn: | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | aildroseddu, a'r risg o niwed, yn cael eu darparu ym mhob achos. | | • Cynyddu'r ddarpariaeth Gwaith Di-dâl drwy gyflwyno prosesau newydd ar gyfer gwaith sydd wedi'i gwblhau drwy'r rhaglen Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, a gweithredu prosiectau Gweithio'n Annibynnol. Bydd perfformiad y naill a'r llall yn cael ei olrhain drwy gyfarfodydd misol sy'n cael eu cadeirio gan Bennaeth Gweithrediadau, Adsefydlu, Atgyfeirio a Gwerthuso Canolog, Ymarfer Effeithiol, Rhaglenni a Gwaith Di-dâl.<br><br>• Cynyddu adnoddau ar gyfer y ddarpariaeth Gwaith Di-dâl drwy recriwtio goruchwylwyr ychwanegol, gan ddefnyddio cyllid ychwanegol.<br><br>• Ail-lansio pecynnau cymorth cymeradwy a fydd yn cynnwys sesiynau briffio i ddatblygu sgiliau staff, ochr yn ochr â gweithredu adnodd sicrhau ansawdd i fonitro sut mae pecynnau cymorth yn cael eu defnyddio yn lle rhaglenni lle bo angen.<br><br>• Cynyddu adnoddau wrth ddarparu rhaglenni drwy recriwtio hwyluswyr ychwanegol gan ddefnyddio cyllid cenedlaethol ychwanegol.<br><br>• Ymgorffori Gwasanaethau Adsefydlu wedi'u Comisiynu ar draws y PDU, gan sicrhau bod yr holl bobl berthnasol sydd ar Brawf yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth perthnasol ac yn ei dderbyn. Bydd nifer yr atgyfeiriadau yn cael eu holrhain gan y Pennaeth Rheoli Contractau a Phennaeth CORRE, Ymarfer Effeithiol, Rhaglenni a Gwaith Di-dâl. | Pennaeth CORRE, Ymarfer Effeithiol, Rhaglenni a Gwaith Di-dâl<br><br>Pennaeth CORRE, Ymarfer Effeithiol, Rhaglenni a Gwaith Di-dâl<br><br>Pennaeth CORRE, Ymarfer Effeithiol, Rhaglenni a Gwaith Di-dâl / Pennaeth PDU<br><br>Pennaeth CORRE, Ymarfer Effeithiol, Rhaglenni a Gwaith Di-dâl<br><br>Pennaeth CORRE, Ymarfer Effeithiol, Rhaglenni a Gwaith Di-dâl / Pennaeth Rheoli Contractau / Pennaeth PDU | Mawrth 2022<br><br>Mai 2022<br><br>Ebrill 2022<br><br>Mehefin 2022<br><br>Mai 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Adolygu achosion gyda gofynion y Rhaglen Achrededig er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch darparu dewisiadau amgen. | Pennaeth PDU | Mai 2022 |
| 11. | Sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am oruchwyliaeth rheoli achosion yn meddu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r amser i wneud y gwaith yn effeithiol. | Cytunwyd | Er mwyn sicrhau bod gan staff y sgiliau, yr wybodaeth a'r amser i wneud eu gwaith yn effeithiol, bydd PDU Gwent yn:<br><br>• Ailstrwythuro timau rheoli dedfrydau a chynyddu adnoddau'r Uwch Swyddogion Prawf i leihau maint timau er mwyn cefnogi mwy o oruchwyliaeth gan reolwyr ar waith achos.<br>• Gweithredu'r hyb cydlynu rheolwyr i ryddhau Uwch Swyddogion Prawf o dasgau gweinyddol er mwyn cynyddu'r amser sydd ar gael i reolwyr oruchwylio gwaith achos.<br>• Adolygu'r Model Touchpoints (model newydd y Gwasanaeth Prawf ar gyfer goruchwylio rheolwyr) a'r Sesiynau Goruchwylio Ymarfer Myfyriol.<br>• Cynnal 'diwrnod ailosod' arweinyddiaeth gydag Uwch Swyddogion Prawf, gan ganolbwyntio ar ailosod disgwyliadau ymarfer wrth i gyfyngiadau COVID-19 lacio, ar y cyd â Modelau Cyflawni Eithriadol Cenedlaethol.<br>• Lansio Pecyn Cynefino ar gyfer Uwch Swyddogion Prawf sy'n canolbwyntio ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gefnogi goruchwyliaeth rheoli uwch.<br>• Gweithredu'r fframwaith cydlofnodi diwygiedig, gan ganolbwyntio ar ddefnyddio'r adnodd Sicrhau Ansawdd Asesu i wella ansawdd asesiadau ac adolygiadau. | <br><br><br>Pennaeth PDU<br>Pennaeth PDU<br>Pennaeth PDU<br>Pennaeth PDU<br>Pennaeth PDU<br>Pennaeth PDU | <br><br><br>Chwefror 2022<br>Chwefror 2022<br>Ebrill 2022<br>Mawrth 2022<br>Mehefin 2022<br>Mai 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Dylai'r Gwasanaeth Prawf – rhanbarth Cymru:** | | | | |
| 12. | Sicrhau bod monitro perfformiad yn canolbwyntio llawer mwy ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth.<br><br>(Ar gyfer Abertawe Castell-nedd Port Talbot a Gwent) | Cytunwyd | Er mwyn sicrhau bod y gwaith o fonitro perfformiad yn canolbwyntio mwy ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer PDU Abertawe Castell-nedd Port Talbot a Gwent, bydd Gwasanaeth Prawf Cymru yn:<br><br>• Adolygu, ehangu a gweithredu'r Strategaeth Ymarfer Effeithiol, gan gynnwys ffocws cryfach ar fesur effaith y gweithgareddau datblygu ac archwilio ansawdd lleol a rhanbarthol a gynlluniwyd drwy gydol 2022/23.<br>• Defnyddio staff i arbenigo mewn gweithgareddau datblygu ansawdd, gan ganolbwyntio ar sicrhau ansawdd a datblygu aelodau staff drwy amrywiaeth o weithgareddau.<br>• Cryfhau dolenni adborth pobl ar brawf drwy ddatblygu grwpiau Cynnwys Pobl ar Brawf (IPOP) lleol a rhanbarthol. | Arweinydd PS Cymru ar gyfer Ymarfer Effeithiol<br><br>Arweinydd PS Cymru ar gyfer Ymarfer Effeithiol a Phenaethiaid PDU<br><br>Arweinydd PS Cymru ar gyfer Cynnwys Pobl ar Brawf | Ebrill 2022<br><br>Ebrill 2022<br><br>Gorffennaf 2022 |
| | **Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM wneud y canlynol:** | | | | |
| 13. | Sicrhau bod lefelau staffio'n cael eu pennu'n gyflym ar gyfer y PDU a'r rhanbarth. | Cytunwyd | Cyn y flwyddyn ariannol newydd ac yn unol â setliad cyllideb yr adran, mae lefelau staffio targed 2022/23 yn cael eu cwblhau ar gyfer pob PDU a Rhanbarth yn unol â nifer y llwyth achos. | Cyfarwyddwr Gweithredol, Rhaglen y Gweithlu Prawf | Mawrth 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | (Ar gyfer Abertawe Castell-nedd Port Talbot a Gwent) | | | | |
| 14. | Datrys y diffyg presennol o ran darparu rhaglenni achrededig a sicrhau bod ansawdd yr ymyriadau a gynigir fel dewis arall yn cael ei sicrhau'n effeithiol.<br><br>(Ar gyfer Abertawe Castell-nedd Port Talbot a Gwent) | Cytunwyd | Mae'r Tîm Cynllunio Gwasanaeth ar gyfer Ymyriadau'r Rhaglen Diwygio'r Gwasanaeth Prawf wedi gweithio ar y cyd â chynrychiolwyr o'r Timau Ymyriadau Rhanbarthol i gyfuno'r hen Ymyriadau Strwythuredig (SI) yn gyfres wedi'i mireinio a chynaliadwy o ddarpariaethau SI Cenedlaethol, sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Panel Ymyriadau Effeithiol Cenedlaethol. Mae gan yr ymyriadau hyn fodel clir o newid, fframwaith gwerthuso a Llawlyfr Ymarfer sy'n ymdrin â'r canlynol:<br><br>Targedu Llysoedd, Atgyfeiriadau a Dethol, Manteisio i'r Eithaf ar Ymyriadau Strwythuredig, Darparu Ymyriadau Strwythuredig, Rheoli'r Rhaglen, Hyfforddiant a Sicrhau Ansawdd. | Arweinydd Rhaglen Achrededig y Gwasanaeth Prawf | Rhagfyr 2022 |
| 15. | Sicrhau bod y mesurau y mae'r Bwrdd Rheoli Galw Cenedlaethol wedi cytuno arnynt yn rhoi blaenoriaeth i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, ac adolygu effaith y mesurau hynny'n rheolaidd.<br><br>(Ar gyfer Gwent) | Cytunwyd | Mae'r Tasglu Rheoli Galw Cenedlaethol o'r enw 'Blaenoriaethu'r Gwasanaeth Prawf' yn nodi'r mesurau a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn PDU Gwent. Bydd y mesurau a gymeradwyir gan y Tasglu yn cael eu hadolygu bob chwarter i sicrhau bod y dull cymeradwy o reoli'r galw yn cefnogi'r gwelliant gofynnol mewn perfformiad. | Prif Swyddog Prawf | Parhaus a chwarterol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 16. | Mynd i'r afael â'r 14 i 16 wythnos o oedi wrth fetio staff newydd a phresennol, a lleihau'r cyfnod hwn yn sylweddol.<br><br>(Ar gyfer Gwent) | Cytunwyd yn Rhannol | Cytunwyd yn rhannol ar yr argymhelliad hwn, gan na all Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi warantu'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r broses fetio ac mae'n cael ei gyfyngu gan yr amser sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw wiriadau ychwanegol. Fodd bynnag, mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn gweithio i ddatrys a lleihau'r amser y mae'n cymryd i gyflogi. Mae hyn yn cynnwys sicrhau prosesau fetio effeithlon ar gyfer staff newydd a staff presennol ymysg pethau eraill.<br><br>Mae Bwrdd y Gweithlu Prawf wedi comisiynu adolygiad o effeithlonrwydd recriwtio. Bydd hyn yn edrych ar rywfaint o'r gwaith dadansoddi y mae Adnoddau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi'i wneud ar ymgyrchoedd y Gwasanaeth Prawf mewn rhannau penodol o'r wlad i benderfynu pa gamau y gellir eu cymryd i ddechrau mynd i'r afael â phrydlondeb, gan gynnwys ystyried adnodd didoli digidol a allai helpu i leihau oedi strwythurol ym model recriwtio presennol y Gwasanaeth Prawf. Bydd grŵp Gorchwyl a Gorffen a gadeirir gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaeth Prawf yn cyfarfod bob wythnos i drafod amseroedd recriwtio. | Rhaglen Gweithlu ac Adferiad y Gwasanaeth Prawf a Grŵp Pobl y Weinyddiaeth Gyfiawnder | Mawrth 2022 |

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| Cytunwyd | 15 |
| Cytunwyd yn Rhannol | 1 |
| Heb Gytuno | 0 |
| **Cyfanswm** | **16** |